

# Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn cefnogi elusennau gwirfoddolwyr a chymunedau

Cyfres Polisiâu Enghreifftiol

## 6 Disgrifiad enghreifftiol o rôl gwirfoddolwr



## Teitl Rôl y Gwirfoddolwr: Cynorthwywr Bywyd Gwylt

### Nod y rôl wirfoddol:

Gweithio gyda'r Tîm Bywyd Gwylt, sy'n rhan o Dasglu Amgylcheddol Tre Ni, grwp o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar amrywiaeth o brosiectau amgylcheddol gyda'r nod o wella ansawdd bywyd yn Nhre Ni.

### Tasgau:

1. Adnabod a chofnodi gweithgaredd bywyd gwylt mewn mannau a ddynodir gan y Rheolwr Gwirfoddolwyr
2. Ymgymryd â mân dasgau cynnal a chadw ar y ffensys a waliau sych
3. Helpu i gyflwyno gwybodaeth a threfnu gweithgareddau i ymwelwyr i roi gwell dealltwriaeth iddynt o fywyd gwylt yn Nhre Ni.

### Targedau:

1. Trefnu o leiaf un 'Diwrnod Bywyd Gwylt' i blant lleol bob mis calendr
2. Darparu adroddiadau monitro bywyd gwylt misol i Arweinydd y Tîm.

### Amser:

Ymrwymiad amser hyblyg, yn ddelfrydol dylai gwirfoddolwyr fod ar gael ar gyfer un diwrnod o'r wythnos y mis er mwyn cymryd rhan mewn Diwrnodau Bywyd Gwylt i blant yn ystod y tymor ac oriau ysgol.

### Y Man gwaith:

Y Gromen Amgylcheddol, Ffordd yr Orsaf, Tre Ni. Gwaith achlysurol oddi ar y safle i'w drefnu gydag Arweinydd y Tîm.

### Rheolwr gwirfoddolwyr:

John Jenkins, Arweinydd y Tîm, Tasglu Amgylcheddol Tre Ni

### Trafnidiaeth:

Nid oes ar wirfoddolwyr angen eu trafndiaeth eu hunain yn ystod oriau gwirfoddoli. Cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da i Tre Ni. Defnyddio beic y Tîm ar gyfer teithiau byr yn ystod y cyfnod gwirfoddoli.

### **Sgiliau angenrheidiol:**

1. Diddordeb ac ymrwymiad i'r amgylchedd, yn arbennig bywyd gwylt cynhenid.
2. Diddordeb mewn prosiectau a gweithgareddau addysgiadol a'r gallu i ennyn diddordeb plant ynddynt.
3. Sgiliau cyfathrebu da, gyda synnwyr digrifwch, hyblygrwydd a gallu gweithio fel rhan o dîm.

### **Buddion a gynigir:**


1. Cwrs hyfforddi deuddydd ar faterion amgylcheddol a bywyd gwylt lleol
2. Hyfforddiant mewnol ychwanegol, dewisol, ar bynciau amrywiol
3. Darperir dillad sy'n dal dŵr ac offer (dewch â'ch welis eich hunain)
4. Telir treuliau
5. Yswiriant llawn
6. Digwyddiadau cydnabod gwirfoddolwyr, e.e. Nadolig a gwyliau eraill.

### **Geirdaon:**

Mae angen un geirda.

Bydd gofyn i wirfoddolwyr a fydd â chysylltiad uniongyrchol a sylweddol â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed gael archwiliad gan yr heddlu.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno

<p><b>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru</b> <i>Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH</i></p> <p><b>Ffôn:</b> 0800 2888 329      <a href="mailto:help@wcva.org.uk">help@wcva.org.uk</a> <b>Ffacs:</b> 029 2043 1701      <a href="http://www.wcva.org.uk">www.wcva.org.uk</a></p>	 <p>Ffôn: 0800 2888 329 <a href="http://www.wcva.org.uk">www.wcva.org.uk</a></p>
<p>Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli <b>Diwygiwyd Mehefin 2014</b></p>	